# Canllawiau ynghylch darparu gwregysau diogelwch ar gludiant penodedig i ddysgwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Rhagfyr 2012

ISBN digidol 978 0 7504 8534 0
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17247

# Canllawiau ynghylch darparu gwregysau diogelwch ar gludiant penodedig i ddysgwyr

**Crynodeb**

Mae’r ddogfen hon yn cynghori ar y newidiadau i'r ddarpariaeth gwregysau diogelwch ar gyfer cludiant i ddysgwyr dan gontract (a wnaed gan Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011[1]) a ddaw i rym ym mis Hydref 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2009, a gyhoeddwyd fel canllawiau statudol o dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008[2] er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar addysg ac ar drafnidiaeth a wnaed ers cyhoeddi'r canllawiau yn 2009, yn ogystal ag ymgorffori’r gwersi a ddysgwyd a’r arferion gorau a ddaeth i’r amlwg ers hynny.

**Beth sydd wedi newid?**

1. O dan Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 ("y Mesur") mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (“corff perthnasol”)[3] sicrhau bod gwregys diogelwch wedi'i ffitio i bob sedd deithiwr ar bob bws a ddefnyddir fel cludiant penodedig i ddysgwyr a hynny erbyn 1 Hydref 2014.

| |
|---|
| Mae “bws” yn cynnwys minibysiau[4], coetsys[5] a bysiau (ac eithrio bysiau a ddyluniwyd at ddefnydd trefol[6] gyda theithwyr sy’n sefyll)[7]. |

2. Diben darpariaethau'r Mesur yw gwella ansawdd cludiant i ddysgwyr dan gontract, a sicrhau bod y safonau'n ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a rhieni. Mae dysgwyr yn llai tebygol o gael anaf difrifol mewn gwrthdrawiad os ydynt yn gwisgo gwregys diogelwch.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i bobl ifanc/dysgwyr wisgo’r gwregysau a ddarperir ar gludiant penodedig i ddysgwyr. Mae’n bosibl y bydd yn fwy o her cael y plant a’r bobl ifanc i wisgo’r gwregysau na sicrhau bod y gwregysau’n cael eu ffitio. Rhoddir rhagor o wybodaeth am sut i annog pobl ifanc/dysgwyr i wisgo gwregysau diogelwch os ydynt ar gael ym mharagraffau 32-36 isod.

---

[1] Dolen i'r mesur: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-legislation-third-assembly/bus-leg-measures/bus_legislation_measure_learnertransport.htm
[2] 2008 mccc 2.
[3] Gweler adran 14N o Fesur Teithio gan Ddysgwyr 2008, fel y’i diwygiwyd.
[4] Y diffiniad o finibws: gweler rheoliad 3 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 (O.S. 1986/1078). Caiff y diffiniad a amlinellir uchod ei gynnwys hefyd yn yr Eirfa yn Atodiad 1 i’r canllawiau.
[5] Y diffiniad o goets: gweler rheoliad 3 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986. Caiff y diffiniad a amlinellir uchod ei gynnwys hefyd yn yr Eirfa yn Atodiad 1 i’r canllawiau.
[6] I weld y diffiniad o fws trefol gweler rheoliad 47(7)(e) o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986. Caiff y diffiniad a amlinellir uchod ei gynnwys hefyd yn yr Eirfa yn Atodiad 1 i’r canllawiau.
[7] Y diffiniad o fws: gweler rheoliad 3 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986. Caiff y diffiniad a amlinellir uchod ei gynnwys hefyd yn yr Eirfa yn Atodiad 1 i’r canllawiau.

**I ba gerbydau y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol?**

4. O dan y Mesur mae'n rhaid bod gwregys diogelwch wedi'i ffitio i bob sedd deithiwr ar bob bws y mae corff perthnasol yn ei ddarparu neu'n ei sicrhau ac sy'n cael ei ddefnyddio i gludo dysgwyr. Bydd yn rhaid ffitio gwregysau diogelwch hefyd ar fysiau gwasanaeth, a ddefnyddir mewn unrhyw fodd ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr (hyd yn oed os nad yw’r rhan fwyaf o’u siwrneiau yn llwybrau cludiant penodedig i ddysgwyr).

5. Er nad yw'r ddarpariaeth hon yn ymdrin â theithio yn ystod y diwrnod ysgol ar hyn o bryd, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r un safonau diogelwch gael eu defnyddio o dan yr amgylchiadau hynny.

6. Nid yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i fysiau gwasanaeth cyhoeddus[8] y mae dysgwyr gyda phasys bysiau a brynwyd gan yr awdurdodau lleol yn eu defnyddio, hyd yn oed os mai dysgwyr sy'n teithio i'r ysgol neu’r coleg ac oddi yno sy'n defnyddio'r llwybr gan fwyaf.

**Pam nad oes gofyn i fysiau gwasanaeth cyhoeddus ffitio gwregysau diogelwch yn yr un modd â bysiau cludo dysgwyr penodedig?**

7. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi’r meysydd y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu yn eu cylch, yn ogystal â’r eithriadau i’r meysydd cyffredinol hynny.

8. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd mewn perthynas â thrafnidiaeth yn caniatáu i’r Cynulliad ddeddfu ynghylch cludiant penodedig i'r ysgol sy'n gallu cynnwys bysiau, coetsys, tacsis a cherbydau hurio preifat megis minibysiau.

9. Ni chaiff y Cynulliad ddeddfu ynghylch cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hynny.

**A yw bysiau gwasanaeth cyhoeddus yn ddiogel i'w defnyddio os nad oes gwregysau diogelwch wedi'u ffitio iddynt?**

10. Mae'n ofyniad cyfreithiol i fysiau gwasanaeth cyhoeddus (a elwir hefyd yn fysiau a ddyluniwyd ar gyfer defnydd trefol, “bysiau trefol”) gwrdd â’r safonau diogelwch cerbydau cenedlaethol sy’n berthnasol i’r cerbyd hwnnw os ydynt i'w defnyddio ar unrhyw briffordd gyhoeddus yn y DU.

11. Ers 1 Hydref 2001, mae wedi bod yn ofynnol gosod gwregysau diogelwch ym mhob bws newydd ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cynllunio'n benodol at ddefnydd trefol i'w defnyddio gan deithwyr sy'n sefyll[9]. Ceir esemptiad ar gyfer y cerbydau hyn gan eu bod yn cael eu defnyddio gan amlaf ar gyfer teithiau byrion, o ran amser a phellter, ar gyflymder cymedrol ar lwybrau trefol.

---

[8] Ystyr bysiau gwasanaeth cyhoeddus yw bysiau sy’n caniatáu i’r cyhoedd ddefnyddio’r gwasanaeth hwnnw yn ogystal â dysgwyr sy’n defnyddio’r bws gwasanaeth i deithio i’r ysgol/coleg ac oddi yno.
[9] Gweler Rheoliad 46 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986.

12. Mae rhai gweithredwyr yn dewis defnyddio bysiau gyda gwregysau diogelwch ar gyfer gwasanaethau trefol lle codir tocyn. Nid yw hynny'n ofynnol o dan y gyfraith, fodd bynnag.

**Sut ydw i'n gwybod a fydd yna wregysau diogelwch ar fws?**

13. Yn ôl y gyfraith, rhaid bod y gwneuthurwr wedi ffitio gwregysau diogelwch ar bob sedd sy'n wynebu ymlaen ac yn ôl ar finibysiau, coetsys a bysiau (ac eithrio bysiau a ddyluniwyd at ddefnydd trefol gyda theithwyr sy'n sefyll) a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ar 1 Hydref 2001 neu wedi hynny[10].

14. Rhaid bod gwregys diogelwch wedi'i ffitio i unrhyw sedd flaen sy'n wynebu ymlaen mewn minibysiau a ddefnyddiwyd gyntaf cyn 1 Hydref 2001[11]. Ar gyfer coetsys a ddefnyddiwyd gyntaf cyn 1 Hydref 2001 rhaid bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd agored sy'n wynebu ymlaen[12].

**Beth mae gofyn i'r cyrff perthnasol ei wneud i sicrhau bod y gwregysau diogelwch wedi'u gosod yn briodol ar gludiant i ddysgwyr?**

15. Er nad yw hynny'n ofyniad yn y Mesur, mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod y cyrff perthnasol, megis Awdurdodau Lleol neu Gyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir, yn cael tystiolaeth gan y cwmni bysiau bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod yn gywir ar fws. Gallai hynny fod ar ffurf tystysgrif y VSOA[13] (a fydd yn cadarnhau bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod/eu hôl-ffitio ar y bws i'r safon briodol) a, lle bo hynny'n berthnasol, tystysgrif MOT ddilys er mwyn sicrhau bod y gwregysau diogelwch sydd wedi'u ffitio yn parhau i gwrdd â'r gofynion diogelwch wedi hynny.

16. Mae rhai awdurdodau lleol yn archwilio bysiau dan gontract a ddefnyddir i gludo dysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol/coleg, fel mater o drefn, er mwyn sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir o'r safon briodol. Pobl sydd â'r cymwysterau priodol sy'n cynnal y gwiriadau hyn, ac maent yn cynnal yr archwiliadau i safonau MOT y VSOA. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol eisoes yn cynnal archwiliadau i safon sy'n uwch na'r safonau technegol sy'n ofynnol.

17. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i rannu'r arfer gorau hwn, er mwyn codi safonau'r archwiliadau.

---

[10] Gweler Rheoliad 47 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986.
[11] Yn berthnasol i finibysiau a ddefnyddiwyd gyntaf rhwng 1 Hydref 1988 ac 1 Hydref 2001. Ar gyfer minibysiau a ddefnyddiwyd gyntaf cyn 1 Hydref 1988, gweler rheoliadau 46 a 47 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986.
[12] Yn berthnasol i goetsys a ddefnyddiwyd gyntaf rhwng 1 Hydref 1988 ac 1 Hydref 2001. Ar gyfer coestys a ddefnyddiwyd gyntaf cyn 1 Hydref 1988, gweler rheoliadau 46 a 47 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986.
[13] Mae tystysgrif y VOSA yn sicrhau y cafodd y gwregysau diogelwch eu ffitio i'r safon briodol pan gawsant eu gosod ond nid yw'n sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safonau cydymffurfio wedi hynny. Bydd tystysgrif MOT yn ardystio bod y gwregysau diogelwch (os cawsant eu ffitio) yn cwrdd â'r safonau gofynnol er mwyn pasio'r MOT blynyddol, unwaith y maent wedi'u gosod yn y cerbyd. Ni fydd gan rai cerbydau dystysgrif MOT (os yw'r bws yn newydd sbon ac wedi'i gofrestru am y tro cyntaf o fewn y flwyddyn flaenorol).

**Bysiau deulawr**

18. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod cerbydau deulawr sydd â gwregysau diogelwch wedi'u ffitio'n gywir yn cyrraedd yr un safonau diogelwch â cherbydau unllawr.

19. Os bydd corff perthnasol am ddefnyddio bysiau deulawr ar gyfer cludiant i ddysgwyr dan gontract ar 1 Hydref 2014 neu wedi hynny, bydd gofyn bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd deithiwr yn yr un modd ag ar gyfer cerbydau unllawr.

**Gwisgo gwregysau diogelwch**

20. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol mae teithwyr sy'n 14 oed neu'n hŷn yn gyfrifol yn gyfreithiol am wisgo gwregys diogelwch os oes un ar gael[14]. Ar gyfer plant o dan 14 oed, cyfrifoldeb gyrrwr y cerbyd yw sicrhau bod y plentyn yn gwisgo gwregys diogelwch (mae gyrwyr y cerbydau a restrir yn y tabl isod wedi'u heithrio rhag y cyfrifoldeb cyfreithiol o sicrhau bod plant o dan 14 oed yn gwisgo gwregysau diogelwch)[15]. O dan Adran 15B o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, os oes gwregysau diogelwch i deithwyr ar fws, yna rhaid i'r gweithredwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob teithiwr yn cael ei hysbysu ei bod yn ofyniad cyfreithiol i wisgo gwregys. Gellir hysbysu teithwyr bod yn rhaid iddynt wisgo gwregysau diogelwch drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- Cyhoeddiad swyddogol gan yrrwr y bws, yr hebryngwr/hebryngwyr, neu arweinydd o blith y disgyblion;
- Datganiad clyweledol (pan fydd y disgyblion yn cael eu codi ar y bws neu o fewn cyfnod rhesymol wedi hynny); neu
- Symbol neu destun mewn lle amlwg wrth bob sedd deithiwr sydd â gwregys diogelwch.

| | |
|---|---|
| Math o gerbyd (lle bo'r gyrrwr wedi'i eithrio rhag y cyfrifoldeb am sicrhau bod teithwyr o dan 14 oed yn gwisgo gwregysau diogelwch). | Bysiau mawr – gydag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr |
| | Tacsis trwyddedig |
| | Bysiau bach (llai nag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr) lle nad oes gwregysau diogelwch ar gael. |
| | Bysiau bach (llai nag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr) os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth lleol o fewn ystyr Deddf Trafnidiaeth 1985 neu os yw'r cerbyd wedi'i ddylunio neu'i addasu ar gyfer teithwyr sy'n sefyll. |

21. Rhoddir dirwy o hyd at £2,500 i weithredwr sy'n methu rhoi'r hysbysiad angenrheidiol.

[14] Gweler adran 14 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.
[15] Gweler adran 15 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

22. Erbyn hyn mae'n ofyniad cyfreithiol i bob teithiwr ar fws neu goets sy'n 14 oed neu'n hŷn wisgo gwregys diogelwch. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch sut i drosi gofyniad yng Nghyfarwyddeb 2003/20/EC yr UE sy'n ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i blant 3 i 13 oed ddefnyddio'r systemau diogelwch (gan gynnwys gwregysau diogelwch) a ddarperir tra'u bod yn eistedd mewn bws neu goets. Nid yw'r Gyfarwyddeb yn pennu pa fath o system diogelu plant fyddai'n briodol.

23. Unwaith y caiff Cyfarwyddeb 2003/20/EC yr UE ei throsi'n llawn, bydd yn ofyniad cyfreithiol i blant sy'n dair oed ac yn hŷn wisgo gwregysau diogelwch ar fysiau a choetsys os oes gwregysau diogelwch wedi'u darparu.

24. Dywed Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan[16] bod yn rhaid i ddysgwyr wisgo gwregys diogelwch bob amser os darperir un. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cod. Os bydd unrhyw blentyn yn torri'r Cod drwy wrthod gwisgo gwregys, caiff yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg gymryd camau yn erbyn yr unigolyn hwnnw e.e. rhoi'r gorau i ddarparu'r cludiant neu gymryd camau disgyblu. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell dangos i'r plant sut i wisgo gwregys yn briodol (gweler paragraff 25 isod).

25. Rhaid addasu'r gwregysau yn y fath fodd fel eu bod yn diogelu'r teithwyr i'r graddau mwyaf posibl. Er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl, rhaid i deithwyr sicrhau:

- bod y gwregysau'n gorwedd mor agos â phosibl at y corff, heb unrhyw lacrwydd neu gordeddu yn y strapiau;
- bod y gwregys glin yn gorwedd mor isel â phosibl rhwng asgwrn y glun ac asgwrn y glun ac nid ar draws y stumog;
- nad yw gwregys byth yn cael ei roi am ddau berson.

**Pa fath o wregys diogelwch ddylid ei ddefnyddio?**

26. Ni all Llywodraeth Cymru bennu'n gyfreithiol ba fath o wregys ddylid ei ddefnyddio. Ar y rhan fwyaf o fysiau, gwregysau glin sy'n cael eu defnyddio, ac mae'r rhain yn cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. Argymhellir, er hynny, defnyddio gwregys triphwynt ar gyfer pob oedran fel arfer[17]. Nodir y rhesymau sy'n sail i'r argymhelliad hwn isod:

27. Mae'r gwregys triphwynt ar gyfer pob oedran yn dal rhan uchaf a rhan isaf y torso yn ôl, yn cael ei angori mewn dim llai na thri phwynt, ac yn cynnwys gwregys glin. Yn ogystal, gellir addasu lleoliad y strap ysgwydd i'w wneud yn addas ar gyfer maint y teithiwr.

[16] Dolen i'r Cod: http://cymru.gov.uk/topics/transport/publications/travelbehaviourcode/?lang=cy
[17] Nid yw gwregysau triphwynt ar gyfer pob oedran yn addas ar gyfer bysiau deulawr, felly argymhellir defnyddio gwregysau glin ar gyfer y mathau hyn o gerbydau. Y rheswm am hynny yw nad yw'n strwythurol bosibl gosod gwregysau triphwynt ar gyfer pob oedran ar y llawr uchaf, gan nad oes digon o gryfder yn y brif ffrâm i angori gwregysau o'r fath yn ddiogel.

28. Mae gan y math arbennig hwn o wregys enw da am ei effeithiolrwydd a'i hwylustod. Mae tafod y gwregys yn cydio yn y bwcl, a gellir gwneud hynny ag un llaw. Mae dyfais dynhau yn rhan o system y gwregys sy'n golygu bod unrhyw ran o'r gwregys sy'n llac yn cael ei thynnu'n dynn yn awtomatig.

**Cyflyrau meddygol**

29. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod meddygon rhai unigolion wedi penderfynu y dylid eu heithrio rhag gorfod gwisgo gwregys diogelwch am resymau meddygol. Gallai pobl anabl, er enghraifft, gael eu heithrio rhag gwisgo gwregys diogelwch am resymau meddygol.

30. Mewn achosion o'r fath bydd meddygon yn cyhoeddi 'Tystysgrif Eithrio rhag Gorfod Gwisgo Gwregys Diogelwch', a rhaid i unigolion gadw hon gyda hwy a'i dangos i'r heddlu os ydynt yn cael eu herio. Rhaid i bob tystysgrif o'r fath bennu'r cyfnod dilysrwydd, a all fod mor hir neu mor fyr ag y mae'r cyflwr meddygol yn ei gyfiawnhau.

31. Gall fod yna amgylchiadau lle bo'n rhaid addasu'r gwregysau er mwyn cwrdd â gofynion corfforol neu feddygol y teithwyr.

**Arferion da wrth wisgo a monitro gwregysau diogelwch**

32. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn deall pwysigrwydd gwisgo gwregysau diogelwch wrth deithio ar y bws. Swyddogion diogelwch ar y ffyrdd, swyddogion cymunedol yr heddlu, ysgolion ac awdurdodau lleol yw rhai o'r partneriaid a all bwysleisio pwysigrwydd gwisgo gwregys diogelwch.

33. Mae yna amryw ffyrdd o fonitro bod plant a phobl ifanc yn gwisgo gwregysau diogelwch, gallai’r rhain gynnwys (os ydynt ar gael):

- yr heddlu;
- disgyblion chweched dosbarth/swyddogion;
- hebryngwyr dynodedig (e.e. cynorthwywyr teithwyr);
- Arolygwyr (o awdurdod gorfodi);
- prosiectau cymunedol (a all ddefnyddio rhieni a chyfoedion i annog disgyblion ifanc/pobl ifanc i wisgo gwregysau diogelwch).

34. Mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio â'r heddlu i gynnal hapwiriadau ar fysiau ysgol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gwisgo eu gwregysau. Pan gaiff ei bwysleisio'n aml mae yna dystiolaeth bod hyn yn newid agweddau'r bobl ifanc.

35. Mae yna enghreifftiau o arferion da o ran hyfforddi dysgwyr ynghylch pwysigrwydd gwisgo gwregysau diogelwch. Yn 2008/2009, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ariannu prosiectau awdurdodau lleol sy'n arloesi ac yn gwella cludiant i'r ysgol. Dyma rai enghreifftiau:

- darparodd awdurdodau lleol Bro Morgannwg a Sir Fynwy sesiynau gwregysau diogelwch i ddisgyblion yn y dosbarth gan ddefnyddio DVDs a chwarae rolau er mwyn pwysleisio negeseuon pwysig;
- cyflwynodd Uned Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Fynwy gontractau i rieni sy’n mynnu bod gwregysau’n cael eu gwisgo bob tro fel amod teithio, ar sail iechyd a diogelwch. Ni roddir pasys bysiau i ddisgyblion os na chafodd y contract hwn ei lofnodi. Mae awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi cyflwyno cynlluniau tebyg;
- hyfforddodd Cyngor Sir Ddinbych ei staff i hyfforddi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sut i ddefnyddio a gwisgo gwregysau diogelwch;
- mae SWITCH (awdurdodau lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot) yn cyflogi swyddog hyfforddi sy’n ymweld ag ysgolion ac yn cynnal hyfforddiant gwregysau a diogelwch ar fysiau ysgol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain a phrosiectau cludiant ysgol eraill ar wefan CLlC http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/cludiant-ir-ysgol1/

**Sut i ddarbwyllo disgyblion/pobl ifanc i wisgo gwregysau diogelwch**

36. Mae yna nifer o ddulliau y gellir eu defnyddio i annog a darbwyllo disgyblion a phobl ifanc i wisgo gwregysau diogelwch, er enghraifft:

- Cyflwyno rhaglen hyfforddi ac addysgu mewn ysgolion ar lefel Cymru gyfan. Gallai athrawon neu'r swyddogion perthnasol yn yr awdurdod lleol gyflwyno'r rhaglen, a gallai gynnwys gweithgareddau megis cwisiau, gemau, DVDs ac ymarferion chwarae rhan.
- Gall ysgolion chwarae eu rhan drwy annog rhieni i bwysleisio wrth eu plant pa mor bwysig ac angenrheidiol yw gwisgo gwregysau diogelwch. Gall ysgolion wneud hynny drwy godi'r mater mewn nosweithiau rhieni, trafod â rhieni yng nghyfarfodydd y Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, anfon taflenni gwybodaeth at rieni neu gynnwys erthygl ar wregysau diogelwch a chyfrifoldeb mewn cylchlythyrau ysgol.
- Gall swyddogion/disgyblion chweched dosbarth cyfrifol fonitro bod disgyblion yn gwisgo gwregysau diogelwch ar gludiant penodedig i'r ysgol a helpu i orfodi’r drefn drwy gyfarwyddo'r dysgwyr eraill ar lafar i wisgo gwregysau a nodi enwau'r rheini sy'n gwrthod gwneud hynny.
- Mae gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae er mwyn cyflawni'r amcan hwn, a gallent weithio mewn partneriaeth ag ysgolion drwy ddarparu swyddogion i fonitro a gorfodi gwisgo gwregysau diogelwch ar gludiant i'r ysgol.

**Sancsiynau Troseddol**

37. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer trefn sancsiynau troseddol os yw:

- corff perthnasol yn methu sicrhau bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd yn y bysiau y mae'n eu darparu neu'n eu sicrhau fel arall ar gyfer cludiant i ddysgwyr;
- person sy'n darparu'r bws ar gyfer cludiant i ddysgwyr yn methu sicrhau bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd deithiwr.

38. Mae person neu gorff perthnasol sy'n cyflawni tramgwydd a restrir uchod yn agored, os caiff ei gollfarnu, i dderbyn dirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

**Awdurdod Gorfodi**

39. Mae Adran 8 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru allu penodi corff gorfodi os mai hynny yw eu dymuniad. Caniateir penodi mwy nag un person neu gorff, gan gynnwys unrhyw gorff gorfodi cyfredol a Gweinidogion Cymru eu hunain. Mae Adran 8 yn darparu bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud Rheoliadau sy'n rhoi pwerau i'r awdurdod gorfodi hwnnw, neu'n gosod dyletswyddau arno. Os na chaiff corff gorfodi penodol ei sefydlu, cyfrifoldeb yr heddlu fydd gorfodi tramgwyddau troseddol.

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl opsiynau posibl o dan y Mesur wrth benderfynu pwy fyddai'r corff gorfodi mwyaf priodol, ac wedi penderfynu mai'r heddlu fyddai'r corff mwyaf priodol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

41. Bydd swyddogion yr heddlu yn gwirio bod gwregysau diogelwch wedi’u ffitio i bob sedd deithiwr ar gludiant ysgol dan gontract. Caiff hyn ei wneud ledled Cymru fel rhan o’r hapwiriadau rheolaidd y maent yn eu cynnal ar hyn o bryd ar gerbydau cludiant ysgol dan gontract. Gellir cynnal y gwiriadau hyn ar ochr y ffordd yn ystod teithiau i’r ysgol neu ar safle’r ysgol cyn neu wedi taith. Os ydynt ar gael, bydd archwilwyr cerbydau yr Asiantaeth Cerbydau a Gwasanaethau Gweithredwyr (VOSA) yn helpu’r heddlu pa bryd bynnag a ble bynnag y byddant yn cynnal gweithrediadau/gwiriadau cludiant ysgol yng Nghymru.

**Atebolrwydd swyddogion a phartneriaid – pwy fyddai'n wynebu erlyniad?**

42. Yn y rhan fwyaf o achosion lle cyflwynir erlyniad ar gyfer tramgwydd o dan ddarpariaethau'r Mesur, byddai'r corff perthnasol yn ei gyfanrwydd yn gyfrifol ac ni fyddai yna atebolrwydd unigol.

43. Yn achos cwmni, os cyflawnwyd tramgwydd ac y gellid profi y'i cyflawnwyd o ganlyniad i esgeulustod ar ran unigolyn o fewn y cwmni hwnnw, neu gyda chydsyniad yr unigolyn hwnnw, yna byddai'n bosibl i'r unigolyn gael ei erlyn ar wahân, ochr yn ochr â'r cwmni. Byddai'r un rheol yn berthnasol i unigolion o fewn partneriaeth.

44. Ni fyddai aelodau unigol y corff llywodraethu yn atebol yn yr un modd ag y byddai swyddogion awdurdod lleol, fodd bynnag. Mae corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn endid cyfreithiol ar wahân i'w "aelodau" felly byddai yna

gydgyfrifoldeb pe bai corff llywodraethu (ysgol a gynhelir) yn cyflawni tramgwydd o dan y Mesur.

## Atodiad 1

## Geirfa

1. **Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011:** Cyfraith Gymreig a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflwynwyd y dull deddfwriaethol hwn, a elwir yn Fesurau'r Cynulliad neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2006. Cafodd y dull deddfwriaethol arbennig hwn ei ddisodli gan Ddeddfau'r Cynulliad yn sgil y bleidlais gadarnhaol yn refferendwm 2011 ar bwerau sylfaenol i'r Cynulliad (mewn perthynas â'r meysydd polisi datganoledig). Mae'r Mesur uchod yn pennu bod yn rhaid bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd deithiwr ar bob cludiant i'r ysgol dan gontract erbyn 1 Hydref 2014.

2. **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008:** Mae'r Mesur hwn yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darparu cludiant i'r ysgol yng Nghymru. Roedd cyhoeddi'r Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2009 yn un o ofynion y Mesur.

3. **Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, 2009:** Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer darparu cludiant i'r ysgol yng Nghymru.

4. **Ysgolion a Gynhelir:** Ysgolion sy'n derbyn cefnogaeth ariannol gan y Wladwriaeth.

5. **Corff Llywodraethu:** Personau sy'n ffurfio corff at ddibenion gweinyddu ysgolion.

6. **Corff Perthnasol:** At ddibenion y canllawiau cynghori hyn, mae corff perthnasol yn cyfeirio at awdurdod lleol neu Gorff Llywodraethu Ysgol a Gynhelir.

7. **Minibws:** Ystyr minibws yw cerbyd modur sydd wedi'i greu neu'i addasu i gario mwy nag 8 ond dim mwy nag 16 o deithwyr ar eu heistedd yn ychwanegol at y gyrrwr.

8. **Bws:** Cerbyd o unrhyw bwysau, gyda mwy nag 16 o seddi teithwyr a chyflymder uchaf o ddim mwy na 60mya, neu gerbyd gyda mwy nag 16 o seddi teithwyr a Phwysau Gros wedi'i Ddylunio o lai na 7.5 tunnell.

9. **Coets:** Cerbyd gyda Phwysau Gros wedi'i Ddylunio o dros 7.5 tunnell a chyflymder uchaf o dros 60mya.

10. **Bws trefol:** Bysiau a ddyluniwyd i'w defnyddio ar lwybrau gwasanaeth bws lleol/gwledig a threfol gyda theithwyr sy'n sefyll.

11. **Yr Asiantaeth Cerbydau a Gwasanaethau Gweithredwyr (VOSA):** Un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Drafnidiaeth. Mae'n darparu amrywiaeth o

wasanaethau trwyddedu, profi a gorfodi gyda'r nod o wella safonau'r cerbydau sydd ar y ffyrdd.

12. **Cyfarwyddeb 2003/20/EC yr UE:** O dan y Gyfarwyddeb, y bydd gofyn ei throsi i Ddeddfwriaeth y DU, bydd yn ofyniad cyfreithiol i blant 3 i 13 oed wisgo gwregysau diogelwch ar fysiau a choetsys os oes gwregysau diogelwch wedi'u darparu.